# Newyddion Bethlehem

## Gwaelod-y-garth

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem Gwanwyn 2017





Does dim gwobr am ddyfalu beth oedd yr achlysur! Sêr ifanc yr ysgol Sul, ynghyd â Carys ac Aine, fu'n arwain yr oedfa Gŵyl Ddewi. Ac ar y dde, Heulwen yn defnyddio peth o gynnyrch ei rhandir yn ei sgwrs ar y genhinen.



Yn ystod ei fyfyrdod diweddar ar Gandhi a Malala, defnyddiodd Delwyn ambell ddyfyniad gan y ddau. Mae nifer ohonoch wedi gofyn iddo amdanyn nhw – felly dyma nhw:

Gandhi:

- Pan fydd heddwch ar y ddaear a'r byd yn ddi-drais - dyna pryd y gallwn ni ddweud bod Crist wedi'i eni.
- Pan ddaw'r dydd y bydd Grym Cariad yn drech na'r Cariad at Rym, yna bydd y byd yn adnabod Heddwch.
- Mewn gweddi, gwell yw calon heb eiriau na geiriau heb galon.

Malala:

- Dwi wir yn credu mai'r unig ffordd i greu Heddwch yn y Byd yw trwy Addysg, ond nid dim ond addysgu'r ymennydd, ond ein calonnau a'n heneidiau yn ogystal.
- Gall un plentyn, un athro, un llyfr, ac un ysgrif-bin newid y byd.

vvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvv

# SULIAU BETHLEHEM
# Hyd Nadolig 2017

vvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvvv

**EBRILL**

2 – Delwyn Siôn - Oedfa Gymun + Cwrdd Eglwys
9 – Dafydd Iwan
16 – Oedfa Sul y Pasg
23 - Y Parchg. Dyfrig Rees
30 – Marc John Williams

**MAI**

7 – Delwyn Siôn - Oedfa Gymun
14 - Oedfa Cymorth Cristnogol
21 - Y Parchg. Peter Dewi Richards
28 – Oedfa Ardal Radur

**MEHEFIN**

4 – Hefin Jones
11 – Y Parchg. Elfed ap Nefydd Roberts - Oedfa Gymun
18 – Delwyn Siôn -
25 – Oedfa dan ofal June a Huw Lloyd

**GORFFENNAF**

2 – Delwyn Siôn - Oedfa Gymun
9 - Oedfa dan ofal Rhys Powys
16 – Y Parchg. Jeff Williams
23 – Y Parchg. Allan Pickard
30 - Efail Isaf yn ymuno - Karen Owen

**AWST**

6 - Efail Isaf - Cymun
13 - Bethlehem
20 - Efail Isaf
27 – Bethlehem

**MEDI**

3 – Y Parchg. Hywel Wyn Richards
10 – Delwyn Siôn - Oedfa Gymun
17 – Y Parchg. Robin Samuel
24 - Diolchgarwch y Plant

**HYDREF**

1 – Y Parchg. Robert Owen Griffiths
8 – Delwyn Siôn - Oedfa Gymun
15 – Oedfa Ardal - Creigiau
22 – Y Parchg. Lona Roberts
29 - Hefin Jones

**TACHWEDD**

5- Y Parchg. Peter Dewi Richards
12 – Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans
19 – Delwyn Siôn
26 – Y Parchg. Allan Pickard

**RHAGFYR**

3 – Ymarfer y Plant - Cymun y nos - Delwyn Siôn
10 - Ymweld â Chartre'r Henoed -
Naw llith a Charol am 5 pm
17 - Drama'r Geni.
24 -
31 - Y Parchg. Dafydd Owen

## Manylion cyswllt:

**Arweinydd:**

**Delwyn Sion**
**Ffôn:** 029 20 65 07 58
*e-bost:* d.sion@ntlworld.com

**Ysgrifennydd:**

**Rhodri-Gwynn Jones,**
**Ffôn:** 029 20 89 00 39
***e-bost:*** rhodrigj@tiscali.co.uk

www.bethlehem.cymru (trydar) @GweBethlehem

**Croesawu 5 aelod newydd**

***(ac i'w gweld nhw'n iawn, ewch i dudalen 8)***



# AR HYD Y MISOEDD

Nôl ym mis Medi 2016 cawsom egwyl gerddorol yn y Festri gydag Ann Williams (chwaer Eira) yn cyflwyno Alawon Cymreig a darnau adnabyddus eraill ar y Delyn Geltaidd. Profiad swynol a difyr dros ben oedd cael cwmni'r Delynores ddawnus a chlywed tipyn am hanes ei gyrfa fel nyrs a cherddor. Swynwyd pawb gan ei phersonoliaeth gynnes.

Ym mis Hydref pleser oedd croesawu Rhiannon Alun Evans i'r cwmni. Datgelodd i ni hanes difyr a rhyfeddol yr awdures amryddawn Elizabeth Luard. Syndod oedd clywed iddi fyw am flynyddoedd mewn lleoliad anghysbell yng nghanol Ceredigion. Cyfareddwyd ni gan y stori a chan ddawn dweud huawdl Rhiannon.

Mentro allan i'r Bathdy Brenhinol wnaethom ym mis Tachwedd. Profiad newydd ac addysgiadol iawn oedd gweld lle tardda holl arian caled y Deyrnas Unedig. Mae'n diolch yn fawr i Judith am drefnu'r daith ddiddorol ac am sicrhau ein bod yn cael ein tywys o gwmpas drwy gyfrwng y Gymraeg.





Anhygoel yw'r gair i ddisgrifio gwaith a pharatoadau Marian Evans ar ein cyfer yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Dangosodd i ni sut i wneud nifer o ddanteithion blasus i'n digoni dros y 'Dolig. Pleser oedd dilyn ei chyfarwyddiadau manwl, a gwledd heb ei hail gawsom wrth flasu'r cynnyrch cyn mynd adre. Rhyfeddu wnaeth pawb at ddawn a diwydrwydd Marian

Shan Osborne fu'n ein tywys i drafod Llyfrau ym mis Ionawr 2017. Mae diddordeb a gwybodaeth Shan am lenyddiaeth yn eang iawn a phleser oedd gwrando arni yn cyflwyno'n frwdfrydig, awduron a gwahanol lyfrau i'n sylw. Cyfrannodd nifer o'r aelodau yn ddifyr ac adeiladol at y drafodaeth.

Traddodiad sy' wedi sefydlu ers sawl blwyddyn bellach yw fod Alun ein cyn weinidog yn dod i roi sgwrs i ni ym mis Chwefror. Doedd eleni ddim yn wahanol, a chawsom sgwrs dan y teitl 'Llaw ar y Llyw'. Crynodeb o ddigwyddiadau ei 2 flynedd fel Llywydd Undeb yr Annibynwyr. Rhyfeddodd pawb at ei ddycnwch a'i gryfder yn teithio ledled Cymru yn cynrychioli'r Undeb. Difyr oedd clywed am y digwyddiadau dwys a digri, a da deall fod y Croeso Cymreig Cristnogol yn dal yn fyw yn ein tir

Allan i ganol Dinas Caerdydd yr aethom ar Fawrth 14eg i gyfarfod yr awdur, Jon Gower (uchod), fyddai'n ein harwain ar daith hanesyddol fer. Agoriad llygad i ni oedd gwrando ar Jon yn disgrifio arwyddocâd nifer o leoliadau ac adeiladau nodedig canol y ddinas. Rhaid oedd codi ein golygon yn uchel iawn i ddarganfod y geiriau Cymraeg wedi eu cerfio i'r meini ar fur yr Hen Lyfrgell a'u codi yn uwch eto i weld enghraifft o waith y Saer Maen Iolo Morgannwg ar binaclau Eglwys Sant Ioan, Yr Ais.

Atgoffwyd ni mai o ystafelloedd mewn adeilad gyferbyn a'r Castell y darlledwyd y geiriau cyntaf yn y Gymraeg ar y BBC yn 1923, geiriau pwerus Gwilym Hiraethog *"Segurdod yw clod y cledd, a rhwd yw ei anrhydedd"*

Ysbrydolwyd ni gan sylwadau Jon i sylweddoli ein bod yn yr olyniaeth o siaradwyr Cymraeg fu yng Nghaerdydd ar hyd y canrifoedd, ac sydd hyd heddiw yn mynd o nerth i nerth fel y dengys y cynnydd yn niferoedd ein hysgolion Cymraeg. Cawsom bnawn cofiadwy iawn yng nghwmni brwdfrydig Jon.



Cast y Ddrama Nadolig





Y gynulleidfa drwy lygaid y cast





Yr un oedd y neges yn y cyflwyniad eleni, er i'r lleoliad fod yn bur wahanol i'r arfer - mewn gwersyll ffoaduriaid ar gyrion Calais – Nadolig yn 'Y Jyngl'





A dyma ymwelydd arall blynyddol arall sy'n cael croeso wedi'r perfformiad!









Rhan yn unig o gynulleidfa oedfa bore'r Nadolig yn cyfarch ei gilydd wedi'r gwasanaeth.

# Blasu Bethlehem

Prynhawn Sul olaf Tachwedd oedd hi pan gynhaliwyd y cyntaf o'r digwyddiadau am eleni i godi arian at ein helusen leol – Ysbyty Felindre. Cyfunwyd tasgau megis coginio, creu addurniadau Nadolig a chynnig llinellau coll gyda'r cyfle i ddathlu fod Delwyn Siôn yn dod yn arweinydd arnom ym Methlehem.



Cyn y rhialtwch a'r gweithgaredd creadigol, cynhaliodd Y Parchedig Ddr. R. Alun Evans a'r Parchedig Alan Pickard, wasanaeth byr gyda Delwyn i nodi'n ffurfiol ei fod yn ymgymryd â'i gyfrifoldebau fel arweinydd.

Yna, gan i'r pwyllgor osod tasgau oedd yn gofyn am ddwsin o 'fins peis', Bisgedi Nadolig, 'cup-cakes' neu foncyff siocled, roedd y byrddau yn drwm o ddanteithion wedi eu coginio gartre'.

Ond roedd hefyd dasgau i'w cyflawni ar y noson – i blant ac oedolion. Roedd 5 bwrdd wedi eu gosod yn y Festri, un i bob ardal, a digon o ddefnyddiau ar y fordydd i addurno cacen, ac i greu addurn Nadolig. Roedd gan bawb chwarter awr i wneud y ddwy dasg. Marian Ifans fu'n cloriannu ymdrechion yr addurniadau bwrdd. Teg adrodd na welwyd cymaint o ymrafael mewn dail a changhennau yng Ngwaelod-y-Garth ers dyddiau torri Coed Glyn Cynon!





Ynghanol hyn i gyd, roedd beirdd myfyrgar yn paratoi eu llinellau coll i'w beirniadu gan Rhodri ac Alun, tra bu raid i'r cogyddion fodloni ar feirniaid 'o bant' dan yr enwau amheus o "Terry Berry a Pauline Hollywood!"

Fel gwelwch o'r lluniau, cafwyd teilyngdod ym mhob categori – ac wrth werthu'r cynnyrch gwnaed elw **o £430** at Gronfa Ysbyty Felindre, ein helusen leol am eleni. ***(rhagor o luniau ar y dudalen nesaf)***

***Yn ystod yr ail noson at gronfa Felindre - "Cyri , Clonc a Chodi Arian" - a drefnwyd gan Alwyn ac Angharad ym mis Ionawr, gwnaed elw o £700. Ymddiheuriadau, does dim lluniau o'r wledd fendigedig honno, nac ychwaith o'r gloddestwyr bodlon ym mwyty'r Mango House ar Stryd y Porth. Diolch yn fawr iawn i Alwyn ac Angharad am eu holl waith yn cael pawb ynghyd ar y noson ac am groeso arbennig staff y bwyty yn ystod yr achlysur.***



*(chwith)* Megan Alys - enillydd ifanc y dasg addurno cacennau. *(dde)* Marian, beirniad yr addurniadau bwrdd yn amlwg yn plesio rhai o'r cystadleuwyr *(isod)*

















Gweithgaredd ar bob bwrdd! *(uchod)* Y pen-limrigwr, Wyn. *(chwith isod)* Jean, y pen pobydd gyda'r beirniaid. *(dde isod)* Ôl llafur y pobyddion cartref.





**NODIADAU RHODRI**

## Penderfyniadau'r Cwrdd Eglwys – Ebrill 2il, 2017:

- **Defnydd o'r Capel:**

Ar ran y gynulleidfa cadarnhaodd Catrin Llwyd ei pharodrwydd i ymuno a'r panel bychan i ystyried, yn ôl y gofyn, ceisiadau / ffioedd am ddefnydd y capel, gan gynnwys ceisiadau i briodi gan rai nad oes cysylltiad uniongyrchol a'r eglwys.

- **Cofrestryddion:**

Awdurdodwyd y Cofrestryddion i weinyddu priodasau tu hwnt i ffiniau'r adeilad.

Nodwyd ychwanegu Delwyn Sion at restr y Cofrestryddion.

- **Cymundeb:**

Cytunwyd i gynnwys aelodau, ar y cyd a'r diaconiaid, i rannu'r bara a'r gwin, fel rhan o'r cymundeb.

Cytunwyd mewn egwyddor y bwriad i wahodd yr Ysgol Sul (y plant a'u hathrawon) yn ôl i'r capel pan weinyddir y cymun. Byddai ymgynghoriad pellach gydag athrawon a rhieni'r plant ar y drefn orau i'w mabwysiadu.

- **Offer Sain a Goleuadau yn y Capel a'r Festri:**

Cydsyniwyd a'r awgrym i osod system sain newydd yn y capel.

Cydsyniwyd a'r egwyddor, er hwyluso symud ymlaen, y bwriad i ddiweddaru y goleuo o fewn y capel.

Cydsyniwyd a'r egwyddor o ystyried gofynion y Festri o ran sain a golau, gan ymddiried yn y diaconiaid i sicrhau'r drefn orau i'w mabwysiadu.

- **Dathlu 150 mlwyddiant adeilad y capel presennol yn 2022:**

Nodwyd y bwriad i ddathlu, ac i greu archif (gweler isod).

Mynegodd Rhian Thomas ei pharodrwydd i fod o gymorth i Peter Wynn Thomas wrth baratoi deunydd ar gyfer cyfrol ddathlu i'w chyhoeddi yn 2022.

- **Cymorth Cristnogol:**

Nodwyd y bwriad i gasglu o gwmpas y pentref ym mis Mai yn ystod Wythnos Cymorth Cristnogol

- **Gwobr Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018:**

Cytunwyd i noddi gwobr yn enw Bethlehem, Gwaelod-y-garth yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Caerdydd 2018 (e.e. canu emyn / adrodd darn o'r ysgrythur). Uchafswm y wobr yn debygol o fod o gwmpas £150.

◈ ◈ ◈ ◈ ◈ ◈

Fe sylwch ymysg y cofnodion uchod fod yna sôn am ddathlu, yn 2022, 150 mlynedd ers agor adeilad presennol Capel Bethlehem, Gwaelod-y-garth. Mae Peter Wynn Thomas wedi cytuno i roi hanes y capel ar glawr erbyn hynny, a braf oedd derbyn cynnig Rhian Thomas i fod o gymorth iddo gyda'r dasg honno.

Yn y cyfamser, ar gyfer creu archif, byddai'n dda petai modd casglu cymaint a phosibl o ddeunydd sydd yn swatio mewn cwpwrdd ac atig yn eich cartrefi sydd yn ymwneud a Bethlehem.

Pa mor ddi-nod ei ddiwyg neu ei gynnwys, bydd unrhyw beth fydd yn gymorth i gofnodi hanes y capel a'i chynulleidfa yn dra derbyniol.

Oes 'na luniau gennych? Oes 'na dâp sain o ddarllediad ar y radio, neu fideo o gyflwyniad teledu yn eich meddiant? Dramâu'r Nadolig neu beth am y dramâu a gynhyrchwyd yn ystod 90au'r ganrif ddiwethaf? Oes 'na atgofion y byddech yn barod i'w taro ar glawr? Beth am raglenni'r Gymanfa Ganu a gynhaliwyd dros gyfnod y Pasg?

Beth am bori yn rhai o gyfnodolion a phapurau'r gorffennol i gywain peth o'r hanes a gofnodwyd ynddynt?

Mae 'na awgrymiadau di-ri y gellid eu rhestru yma – a gaf i eich cymell i chwythu'r llwch oddi ar y cloriau a chael gwared o'r gwe pry cop o'r corneli, a mynd ati o ddifrif i "ddarganfod " y Bethlehem coll sy'n llechu yn eich cartrefi!

◈ ◈ ◈ ◈ ◈ ◈

Fel Ysgrifennydd y Capel mae 'na ambell i gais diddorol yn cyrraedd y tŷ - y diweddaraf yn cyrraedd y dydd o'r blaen fel hyn:-

*"Deallaf i mi gael fy medyddio ym Methlehem, Gwaelod-y-garth, o bosibl rhywbryd yng nghanol y flwyddyn 1954. Cefais fy ngeni yn Plymouth, Dyfnaint, ar yr 11fed o Fawrth 1952. Fy enw bedydd oedd Catherine Siriol Miles (bellach Seabrook), a'm cyfeiriad cartref oedd 64 Little Dock Lane, Honicknowle, Plymouth. Dr Guy Henry Miles oedd fy nhad, ac enw fy mam oedd Mari Yvonne Philips – 'roedd ei theulu hi yn mynychu'r capel am flynyddoedd lawer.*


*Mae'n bosibl mai Miss Myfanwy Philips neu Miss Gwenllian (Gwenni) Philips oedd fy mam-fedydd.*

*'Rwyf bellach wedi cyflwyno fy hyn i'm derbyn yn aelod yng Nghadeirlan Chichester ar y 4ydd o Fai 2017, a holi'r wyf a oes modd darparu tystysgrif bedydd neu gofnod o'm bedydd fyddai yn eich cofrestr."*

Oes 'na unrhyw un allan yna all helpu?

**Rhodri-Gwynn Jones**

# Plygain 2017



Cantorion o bob cwr...
... o'r Eglwys Newydd a Blaenau Gwent





... o Fethlehem ... a Bethlehem!







... Elen Lewis, Côr Bechgyn Bro Taf, Delyth Pollard a Pharti'r Efail.





Cewch ragor o wybodaeth am Fethlehem ar ein gwefan: **www.bethlehem.cymru**

# Croesawu aelodau newydd



Fel y gwelwch yn y llun uchod (*a'r un sydd ar dudalen 2*) ymunodd 5 aelod newydd â ni yn ystod oedfa bore Sul, Mawrth 12fed. Fe'u derbyniwyd gan ein harweinydd, Delwyn Sion – y pum aelod cyntaf iddo gael y fraint o'u croesawu. *O'r chwith:* **Paul a Rachel Garside, Beti Williams, Leah ac Eilir Owen Griffiths**. Croesi cynnes i chi i gyd! (A llongyfarchiadau i Eilir am ei ddyfarnu'n arweinydd gorau cyfres Côr Cymru ar S4C yn ddiweddar.)

## Anfonwn ein cofion at:

- **Marian Jones**, Creigiau, ar ôl ei llawdriniaeth yn Nhreforys ac yn ystod ei chwrs pellach o driniaeth.
- **Vi Jones**, Pentyrch, sydd wedi bod yn anhwylus ers tro.
- A da gweld **Gwyneth Lewis**, Pentyrch, yn ôl yn ein plith ar ôl ei thriniaeth hithau.

***Pererindod y Cwrdd Merched i***

**Bantycelyn a Llandeilo**

Dydd Mawrth, Mai 9fed.
Gadael Radur yn **brydlon** am **9.00am.**

**Croeso i bawb.**
Enwau i Ann Passmore neu Eirlys Davies (Radur)



Bedydd **Anni Gwen**, merch Aled a Lisa, a chwaer fach i Alys Mai.

## MEWN GALAR

Estynnwn ein cydymdeimlad â'r canlynol:

- **Peter Wynn Thomas**, Rhiwbeina, wedi colli ei chwaer.
- **Angharad** ac **Alwyn Harding Jones**, Ffynnon Taf – **Angharad** wedi colli ei brawd ac **Alwyn** wedi colli ei fam.
- **Sianed King,** Llandaf, wedi colli ei thad.
- **Emyr Edwards,** Llandaf, wedi colli ei chwaer
- **Eifion Glyn,** Pentyrch – wedi colli ei nith.
- **Carol Davies**, Pentyrch – wedi colli modryb.

## Llongyfarchiadau i ...

- **Rhian Mai a Michael James Smith**, Yr Eglwys Newydd, ar enedigaeth **Eirlys Fflur**.
- **Rhian Huws** ac **Eirlys Lamb** – yn nain a mam-gu i fabis newydd **– Celt Meredydd** i **Elen** a **Steffan** ym Mhenrhyncoch, a **Jac Dylan** i **Rob** a **Simela** yn y Fro
- **Stella Jones** ar ei hymddeoliad – hithau bellach yn nain i **Elise Lily**, merch **Geraint** ac **Amy** yn Ystrad Mynach.



Ashok Ahir fu'n trafod Siciaeth yn ystod cyfarfod olaf y Drws Agored ar wahanol grefyddau'r byd.